OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 783 (Cy.94)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2003

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *18 Mawrth 2003* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 41, 42 a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn, cymhwyso ac effaith

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003, a deuant i rym ar 1 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Diwygir Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol Cyffredinol) 1992(**2**) yn unol â darpariaethau canlynol y Rheoliadau hyn.

### Diwygio paragraff 10A yn Atodlen 2

**2.** Diwygir paragraff 10A i Atodlen 2 (Cwynion) yn unol â'r paragraffau canlynol —

(a) ym mharagraff 7(b)(ii) yn lle'r gair "three", rhodder y gair "two"; a

(b) ym mharagraph (7)(c) yn lle'r ffigur "10", rhodder y ffigur "20".

(**1**) 1977 p.49; *gweler* adran 128(1), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p. 19) ("Deddf 1990"), adran 26(2)(g) ac (i) i gael y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".
Diwygiwyd adran 41 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p. 15) ("Deddf 2001"), adran 42(1).
Diwygiwyd adran 42 gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygio) 1986 (p. 66), adran 3(1); gan Ddeddf yr Awdurdodau Iechyd 1995 (p. 17), adran 2(1), Atodlen 1, paragraff 30(a)(i), (b)(i), (iii) a (c)(i), (iii) a (iv); Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001(p.15) ("Deddf 2001"), adrannau 43(2), (3) a (4), 20(1) a (6)(a)(b)(c), 23(1) a (5)(a)(b), 67(2), Atodlen 6, Rhan 1; gan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17 ) ("Deddf 2002"), adran 2(5), Atodlen 2, Rhan 1, paragraffau 1, 16(1), (3)(b) a (4)(b); O.S. 1987/2202, erthygl 4, a chan Ddeddf 1990, adran 12(3).
Diwygiwyd adran 126(4) gan Ddeddf 1990, adran 65(2); gan Ddeddf Iechyd 1999(p.8), adran 65(1), Atodlen 4, paragraffau 4, 37(1) a 6; gan Ddeddf 2001, adran 67(1), Atodlen 5, Rhan 1, paragraffau 5(1) a 13(b) a chan Ddeddf 2002, adran 6(3)(c).
O ran Cymru, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 41 a 42 a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo, O.S. 1999/672.

(**2**) O.S. 1992/662, yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1996/698, sy'n mewnosod paragraffau 10A a B yn Atodlen 2 ac O.S. 1999/696 sy'n diwygio paragraff 10A.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D.Elis-Thomas*

18 Mawrth 2003

Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol Cyffredinol) 1992 sy'n rheoleiddio'r telerau ynghylch darparu gwasanaethau fferyllol cyffredinol o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977.

Mae Rheoliad 2 yn cynnwys darpariaethau sy'n diwygio'r cyfnod o amser sydd gan fferyllwyr i ymateb i gwynion a wneir gan neu ar ran unrhyw berson y maent wedi rhoi gwasanaeth fferyllol iddo. Caiff yr amser a ganiateir i fferyllwyr gydnabod cwynion yn ffurfiol ei leihau o dri diwrnod i ddau ddiwrnod (ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith a gwyliau banc), tra caiff yr amser a ganiateir i roi i achwynydd grynodeb ysgrifenedig o ymchwiliadau a chasgliadau ei gynyddu o 10 i 20 diwrnod gwaith (ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith a gwyliau banc).